


DYLECH WNEUD HYN GARTRE
#12
gyda Marfin a Milo
Yr hyn sydd ei angen arnoch:
• darn o ffoil • siswrn • hylif golchi llestri• sinc neu fath
Nawr te, bois! Heddiw, rydym am rasio fy nghwch metel i yn erbyn llong Milo.
I greu cwch fel fy un i, torrwch y siâp hwn
... allan o'r ffoil.
Rhowch eich cwch yn ofalus mewn sinc sy'n llawn o ddŵr glân.
Rhowch ddiferyn o hylif golchi llestri'n ofalus yn y twll yn y cwch.
MAE'N SYMUD!
Caiff moleciwlau dŵr eu denu at ei gilydd, gan greu "tyniant arwyneb". Mae'r sebon yn tarfu ar yr wyneb y tu ôl i'r cwch ond mae'r moleciwlau y tu blaen yn dal i dynnu at ei gilydd.
Felly, caiff y cwch ei dynnu ymlaen.
Vic Le Billon
geiriau allweddol: tyniant arwyneb